

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
1 Medi 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwibili Llangeitho
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
1 September 2025 at 8.00 pm at Jiwibili Hall Llangeitho

Presennol/Present

Cyng Gwilym Evans (Cadair/*Chair*), Rhian Turner, Myrddin James, Emyr Jones, Gerwyn Ebenezer, Daniel Thomas, Gwenfair Owen, Ieuan Gwynne, Cyng Rhodri Evans (8.30 ymlaen)

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Beryl Evans, Sarah Evans, Dafydd Morse a PCSO John Evans

Adroddiad yr Heddlu / Police Report – Yn absenoldeb yr heddlu, cylchredwyd yr adroddiad. Dim i'w adrodd i'r heddlu.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.

The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwenfair Owen & seconded by Cllr Myrddin James.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Derbyniwyd adroddiad drwy'r gwasanaeth Clic, Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau nad oeddent yn gweld fod yna broblem efo'r ffens sydd wedi'u adeiladu ar glawdd yn Pontbrengrarreg, Llwynpïod. / *A report was received via the Click service, Ceredigion County Council confirming that they did not see any problem with the fence that has been built on the embankment in Pontbrengrarreg, Llwynpïod*
- Darllenwyd e-bost oddi wrth Mr Nigel Bird ynglyn â'r hen gysgodfan bws. Gofynnir i'r Clerc gysylltu unwaith yn ragor efo Mr Bird yn annog nhw i gysylltu a CAVO i sefydlu grŵp cymunedol er mwyn gwneud trefniant ffurfiol / *E-mail was read from Mr Nigel Bird regarding the old bus shelter. The Clerk is asked to contact Mr Bird once more, encouraging them to get in touch with CAVO to establish a community group in order to make formal arrangements.*
- Cytunwyd i symud y biniau ail-gylchu, ar bwys Dolaeron, Llangeitho, ychydig nôl yn agosach i'r arwyddion / *It was agreed to move the recycling bins, near Dolaeron, Llangeitho, slightly back closer to the signs*
- Cylchredwyd adroddiad ROSPA oddi amgylch y cynghorwyr / *The ROSPA report was circulated among the councillors.*
- Cyflwr yr Afon Aeron yn foddhaol ar hyn o bryd, ond cytunwyd i ofyn i Emyr Lake i ddod i siarad a'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod nesaf / *The condition of the River Aeron is satisfactory at present, but it was agreed to invite Emyr Lake to come and speak to the Community Council at the next meeting.*
- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mrs Ann Davies, Olmarch mae Resin a Llodw Copr a ddefnyddiwyd ar y cerfluniau yn Gelli Angharad ac nid oedd angen iddynt gael triniaeth arall tan o leiaf 15 mlynedd. Er hynny mae angen gwaith cynnal a chadw o gwmpas y cerfluniau ac i'r ffens wrth y mynedfa. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth perchennog presennol Gelli Angharad ei fod yn hapus i'r Cyngor Cymuned gwneud y gwaith perthnasol ar y cerfluniau â'r daear oddi amgylch ond ddim yn gallu cadarnhau'r sefyllfa am y dyfodol gan fod y lle ar werth. Gofynnir i'r perchennog a oedd ganddo ddiddordeb yn gwerthu'r darn tir sydd oddi dan y cerfluniau / *Confirmation was received from Mrs Ann Davies that the resin and copper paste used on the sculptures at Gelli Angharad will not require any further treatment for at least 15 years. Nevertheless, maintenance work is needed around the sculptures and the fence at the entrance. Confirmation was received from the current owner of Gelli Angharad that he is happy for the Community Council to carry out the relevant work on the sculptures and the surrounding ground but cannot confirm the future situation as the property is for sale. The owner is asked if he would be interested in selling the piece of land beneath the sculptures.*
- Tyllau yn y ffordd o Langeitho i Rhydypanyd wedi'u llenwi / *Holes in the road from Llangeitho to Rhydypanyd have been filled.*
- Cloddiau ar y ffordd lawr i Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA wedi'u torri ond soniwyd nad oedd y ffordd wedi'u thrwsio / *Hedges the road down to Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA have been trimmed, but it was mentioned that the road had not been repaired*
- Clerc wedi anfon neges drwy Clic, Cyngor Sir Ceredigion am y sbwriel sydd yn cael ei adael ar ben lôn Brynglas, Llangeitho tu allan i amseroedd casglu'r bagiau duon / *The clerk had messaged Ceredigion County Council about the rubbish that is being left on Brynglas Lane, Llangeitho outside the times for collecting the black bags.*

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Awst £135.74 – *Clerk salary for August £135.74*
- Balans y banc ar 01.09.25 – £11,738.50 – *Bank Balance as 01.09.25*
- Dŵr Cymru / *Welsh Water* £15.92

Cytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Rhian Turner ac eiliwyd gan Cyng Gerwyn Ebenezer

Payments to be made – proposed by Cllr Rhian Turner and seconded by Cllr Gerwyn Ebenezer

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Cais cynllunio oddiwrth Owen, Glanyrafon Garage, Llangeitho, SY25 6TT wedi'u dderbyn. Ni chytunwyd i gefnogi'r cais gwreiddiol ond cefnogwyd y posibilrwydd o chodi tri ty fforddiadwy ac un ar y farchnad agored. Fyddai hyn yn hybu'r teuluoedd ifanc i barhau yn y gymuned, cefnogi'r busnesau lleol ynghyd â'r ysgol leol / *Planning application from Owen, Glanyrafon Garage, Llangeitho, SY25 6TT had been submitted. The original application was not supported, but the possibility of building three affordable houses and one on the open market was supported. This would encourage young families to stay in the community, support local businesses along with the local school.*

Prosiect Waun Maenllwyd Project

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd yn ein hysbysu fod cwmni Belltown Power yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio ac amgylchedd Cymru yn hwyrach eleni. Cytunwyd i aros am gyfarfod gan Gyngor Cymuned Llanddewi Brefi, ac ymuno efo hwy i drafod y ffordd ymlaen / *An email was received from Waun Maenllwyd Wind Energy Hub notifying us that Belltown Power intends to submit an application to Planning and Environment Decisions Wales later this year. It was agreed to wait for a meeting with Llanddewi Brefi Community Council, and join them to discuss the way forward.*

Caru'ch Cymuned 2025 Love Ceredigion

Clerc wedi cwblhau'r ffurflen gais a'r mapiau i'w atodi i'r cais. Diolchwyd i'r Clerc, Cyng Daniel Thomas am y lluniau, ac i'r aelodau a fu'n cynorthwyo i ddod a'r cyfan at ei gilydd ac yn barod i'w hanfon mewn i'r Cyngor Sir / *The clerk had completed the application form and the maps to attach to the application. The Clerk, Councillor Daniel Thomas was thanked for the pictures, and the members who helped to put everything together which was now ready to be submitted to the County Council.*

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Cylchredwyd amryw o e-byst trwy gydol y mis. Gwahoddiad wedi'u dderbyn i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 1af o Hydref 2025, neb am fynychu / *Several emails were circulated throughout the month. Invitations were received to attend the Annual General Meeting on 1st October 2025, but no desire to attend.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Cadeirydd wedi bod mewn cysylltiad a Edward Harries, Cyfreithwyr Llyn Fanod ac nid oedd ganddynt unrhyw newyddion pellach am y ddaear. Cefnogwyd y syniad bod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn cymerid gofal o'r cyfan / *The Chairman has been in contact with Edward Harries, Llyn Fanod Solicitors, and they had no further news about the land. The idea that the Wildlife Trust would take care of everything was supported.*
- Soniwyd bod coeden wedi cwympo ar bwys Llwynderw, Llangeitho / *It was mentioned that a tree had fallen near Llwynderw, Llangeitho.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 6ed o Hydref 2025 yn Festri Capel Gwynfil am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at The Vestry, Gwynfil Chapel Llangeitho on Monday 6th October 2025 at 8.00 o'clock.